9 Medi 2010.

PROSIECT GWYRDD

PRESS RELEASE/ **DATGANIAD I'R WASG**

TROI PROBLEM YN ADNODD

PROSIECT GWYRDD – TROSGLWYDDO'R NEGES I'R CYHOEDD

Mae Prosiect Gwyrdd yn dal i drefnu sioeau teithiol yn ystod mis Medi. Bwriad y rhain yw hysbysu'r cyhoedd yn gyffredinol am y project, y targedau ailgylchu a chompostio sydd wedi eu gosod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC), yr hyn mae awdurdodau partner yn ei wneud i ymgyrraedd at y targedau hynny, a'r angen drwy Gyfarwyddyd Tirlenwi Yr UE i symud o'r ddibyniaeth ar dirlenwi tuag at ailgylchu a chompostio a thechnolegau trin gwastraff cyfoes.

Dywedodd y Cynghorydd Stephens, Cadeirydd y Cydbwyllgor sy'n llywodraethu'r prosiect: "Mae awdurdodau partner yn dal i gynyddu ailgylchu a chompostio ymhob awdurdod lleol. Eisoes mae pob un o'r partneriaid yn ailgylchu a chompostio dros 40%. Mae Caerffili wedi cyrraedd dros 50%. Rydym oll yn gweithio tuag at dargedau uchelgeisiol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

I sicrhau bod y seilwaith yn ei le, mae Prosiect Gwyrdd yn dal i weithio ar y broses gaffael i greu trefniant o drin y gwastraff sy'n weddill ar ôl compostio ac ailgylchu. Mae'r gwastraff gweddilliol hwn yn cynrychioli 30/35% o'r holl wastraff. Mae cyfraniad y cyhoedd yn hollbwysig yn ystod y broses hon, er mwyn iddynt lwyr ddeall nodau a chyd-destun y bartneriaeth rhwng yr awdurdodau, a chael gwybod am benderfyniadau sydd yn cael eu gwneud.

Mae partneriaethau awdurdodau lleol eraill, fel yr un yng Ngogledd Cymru, hefyd yn gweithio gyda LlCC I sicrhau bod y seilwaith gwastraff yn ei le ar gyfer bwyd a gwastraff gweddilliol, wrth i ni ymgyrraedd at y targed o ddim gwastraff o gwbl yn 2050.

Wrth i brosesau caffael gael eu cwblhau ac wrth i benderfyniadau gael eu gwneud, bydd gwybodaeth yn cael ei rhyddhau i'r cyhoedd yn unol â chyfraith Caffael yr EU. Bydd gwybodaeth yn cael ei rhoi yn gyson ar www.prosiectgwyrdd.co.uk

Cynhelir y sioeau teithiol rhwng 10am a 4pm yn y lleoliadau canlynol, ar y dyddiadau canlynol:-

14 Medi: Sgwâr y Brenin, Y Barri, Bro Morgannwg.
16 Medi: Sgwâr Sant Ioan, Y Fenni, Sir Fynwy
18 Medi: hefin: Stryd Working, Canol Dinas Caerdydd
21 Medi: Sgwâr John Frost, Canol Dinas Casnewydd.
23 Medi: Victoria Road, maes parcio ger y llyfrgell, Rhymni, Bwrdeistref Caerffili.